# Pwysigrwydd Darllen



Mae gallu darllen yn rhugl yn hanfodol ar gyfer dysgu, lles a chyfleoedd mewn bywyd, ac mae ymchwil yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng lefelau llythrennedd isel a thangyflawni, tlodi a throseddu. Mae pobl sydd â sgiliau llythrennedd gwael ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith, yn ennill 60% yn llai ar gyfartaledd, ac mae gan dros hanner poblogaeth oedolion carchardai, sgiliau darllen sy'n is na lefel plentyn 11 oed.

Yma yn Ysgol Pant Pastynog, rydym yn rhoi pwyslais cryf iawn ar ddatblygu sgiliau darllen ac yn credu bod gweithio mewn partneriaeth â rhieni yn chwarae rhan hollbwysig. Mae'r ysgol yn croesawu rhieni i ofyn am wybodaeth a strategaethau i'w helpu i ddatblygu eu plant yn ddarllenwyr hyderus. Rhennir cofnodion darllen a llyfrau darllen yn rheolaidd rhwng y cartref a'r ysgol; rhennir gwybodaeth am ddarllen mewn nosweithiau agored a nosweithiau rhieni; ac anogir teuluoedd i gymryd rhan yn Heriau Darllen yr Haf y Llyfrgell a chynllun Pencampwyr Darllen Pant Pastynog yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn croesawu gwirfoddolwyr sy'n dod i ddarllen gyda'r plant yn wythnosol.

# Importance of Reading



Reading fluently is essential for learning, well-being and life chances and research shows that low literacy is strongly linked to underachievement, poverty and crime. Those with poor literacy are twice as likely to be unemployed, earn on average 60% less, and over half of the adult prison population have reading skills below those of an 11-year-old.

Here at Ysgol Pant Pastynog we have a very strong focus on developing reading skills and believe that working in partnership with parents plays a vital role. The school welcomes parents to seek and ask for information and strategies to help their children develop as confident readers. Reading records and reading books are regularly shared between home and school, information about reading is shared in open evenings and parent evenings and families are encouraged to take part in Library Summer Reading Challenges and Pant Pastynog School's Reading Champion scheme. The school also welcomes two volunteers who come into school to read with the children every week.